# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

## 5 Mai 2021

Yn Bresennol: Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)
Cynghorydd P Baker BEM, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Dr M Havard, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr G Jones, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland

[Cyrhaeddodd Dr R Heath-Davies yn ystod ystyried cofnodion y Pwyllgor Ieuenctid (*gweler Cofnod 5(ii));* Cyrhaeddodd Dr R Plummer yn ystod ystyried yr eitem ar benodi Aelod ar Barth Cadwraeth Morol Skomer *(gweler Cofnod 6)].*

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 12.40pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd P Kidney. Roedd Dr R Plummer wedi rhoi gwybod y byddai'n cyrraedd yn hwyr.

**2. Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 24ain o Fawrth 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

O ran Cofnod 10 ynglŷn ag Opsiynau Fformat Cyfarfodydd Pwyllgor ar ôl Cyfyngiadau Covid-19, roedd Cadeirydd y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau wedi nodi bod presenoldeb yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a'i Bwyllgorau wedi cynyddu o rhyw 75% i 94% ers iddynt gael eu cynnal yn rhithiol, yn hytrach nag yn bersonol, a bod hyn yn ystyriaeth bwysig arall o ran fformat cyfarfodydd yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 24ain o Fawrth 2021 yn amodol ar y diwygio uchod.

**3. Materion yn codi**

Siarter Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau: Cais am Statws Siarter Lefel Uwch (Cofnod 12)

Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau i'r Aelodau hynny oedd wedi e-bostio sylwadau ynglŷn â'r gefnogaeth a gawsant gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd, ac roedd y sylwadau hynny wedi'u defnyddio fel tystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r Cais am Siarter Uwch.

**NODWYD.**

**4. Cyhoeddiadau’r Cadeirydd**
Dywedodd y Cadeirydd nad oedd wedi mynychu unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus ers y cyfarfod diwethaf o’r Awdurdod. Fodd bynnag ei obaith oedd y byddai hynny’n dechrau newid yn sgîl llacio’r cyfyngiadau. Yr oedd, serch hynny, wedi mynychu nifer o gyfarfodydd, gan gynnwys cyfarfod o Ymddiriedolaeth PCAP, a chyfeiriodd hefyd at nifer o sesiynau gwych ar awyr dywyll yr oedd yr Awdurdod wedi’u cynnal yn ddiweddar, ac un ar Infertebratau’r Arfordir gan Fforwm Arfordirol Sir Benfro. Llongyfarchodd y Cadeirydd y Tîm Cyfathrebu gan fod gwaith yr Awdurdod wrth gyfathrebu allan o’r argyfwng Covid wedi cyrraedd rhestr fer gwobr rhagoriaeth y DU, a diolchodd i'r Prif Weithredwr a'r staff am eu gwaith caled a'u creadigrwydd.

**NOWYD.**

**5. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**
Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

(i) <u>Y Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2021 ac ar 12 Ebrill 2021.</u>
Gan gyfeirio at y cais yn y cyfarfod o’r Pwyllgor yn ddiweddar bod yr Awdurdod yn adolygu ei bolisi ar siarad cyhoeddus, tynnodd un Aelod sylw’r swyddogion at bolisi Cyngor Sir Penfro oedd yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd siarad yr eildro. Roedd yn gobeithio y byddai hyn yn llywio'r gwaith parhaus o adolygu’r polisi. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai gweithdy i’r Aelodau ar y pwnc hwn yn cael ei gynnal yn y dyfodol agos ac y byddai polisi diwygiedig yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o’r Awdurdod yn y dyfodol.

(ii) <u>Y Pwyllgor Ieuenctid a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2021.</u>
Nodwyd bod y Pwyllgor Ieuenctid ar hyn o bryd yn chwilio am aelodau ifanc newydd ac y dylai unrhyw un oedd â diddordeb gysylltu â Tom Moses.

(iii) <u>Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2021</u>
Nodwyd bod y Pwyllgor wedi ystyried eitem ddiddorol ar y Clefyd Coed Ynn, a chadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r eitem hon hefyd yn cael ei thrafod yn y cyfarfod nesaf o’r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol.

(iv) <u>Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2021</u>
Gofynnodd un Aelod am eglurder ynghylch y cysylltiadau rhwng brandiau ac ymgyrchoedd marchnata (Cofnod 4.5). Eglurodd y Prif Weithredwr

bod pryder wedi'i fynegi y gallai'r ffaith bod yr Awdurdod yn ymwneud â nifer o bartneriaethau a phrosiectau, arwain at negeseuon cymysg. Serch hynny credai bod maint y marchnata yn gadarnhaol a bod y swyddogion yn ymwybodol o'r problemau allai godi.

**PENDERFYNWYD** nodi/mabwysiadu/derbyn cofnodion y Pwyllgorau a enwir uchod.

**6. Grŵp Cynghori Parth Cadwraeth Morol Skomer**

Eglurodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn e-bost oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwahodd yr Awdurdod i enwebu Aelod i eistedd ar y Grŵp a enwir uchod; nodwyd bod yr Awdurdod eisoes yn cael ei gynrychioli ar lefel swyddogion gan y Swyddog Bioamrywiaeth.

**PENDERFYNWYD** bod y Cynghorydd P Harries yn cael ei benodi yn gynrychiolydd yr Awdurdod ar y Grŵp Cynghori Parth Cadwraeth Morol Skomer**.**

**7. Archwilio Cymru: Adolygiad o Gydnerthedd - Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Matthew Brushett ac i Nick Selwyn o Archwilio Cymru i'r cyfarfod. Roeddent wedi egluro mai rhan o'r archwilio perfformiad eleni oedd ceisio ateb y cwestiwn "A yw'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn rheoli ei adnoddau yn effeithiol i sicrhau cydnerthedd y Parc yn y tymor hir?" Yn gyffredinol, daethpwyd i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi profi y gall addasu a'i fod yn gydnerth yn wyneb bygythiadau sy'n tarfu yn gwbl ddirybudd, ond bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod hynny yn parhau yn y tymor hwy, a nodwyd manylion pellach yn yr adroddiad. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai cynllun gweithredu yn cael ei baratoi ac y byddai'r cynllun hwn yn cael ei ddwyn gerbron Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol yr Awdurdod maes o law.

Roedd yr Aelodau yn croesawu'r adroddiad cadarnhaol ac yn dymuno llongyfarch y swyddogion am eu gwaith yn ystod cyfnod anodd. O ran yr holiaduron a ddefnyddiwyd i gynorthwyo i gasglu gwybodaeth, awgrymwyd y gallai holiaduron ar wahân i'r Aelodau a'r swyddogion fod yn fwy defnyddiol. Hefyd roedd cais am grynodebau o'r ymatebion ansoddol a gafwyd. Gan gyfeirio at un o'r casgliadau, mynegwyd pryder gan rai Aelodau ynghylch diffyg capasiti'r gweithlu a glustnodwyd fel risg barhaus i gydnerthedd, a'r gobaith oedd y byddai hyn yn cael sylw yn y cynllun gweithredu. Yn olaf, nodwyd bod yr adroddiad yn amlygu'r risg i'r Awdurdod o ostyngiad mewn incwm, ac awgrymodd un Aelod y gellid gwahodd Archwilio Cymru i weithdy yn y dyfodol ynglŷn â masnacheiddio.

**NODWYD.**

**8. Ymgynghori ar y Drafft o Strategaeth Lefel Uchel ar gyfer yr Awdurdod**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod yn gweithio ar hyn o bryd i ddatblygu Strategaeth newydd ar gyfer yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn nodi'r prif ffactorau oedd wedi dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu strategaeth newydd, a gyflwynwyd i'r Aelodau, a gofynnwyd iddynt gytuno bod ymgynghori allanol yn cael ei gynnal ar y ddogfen ddrafft er mwyn rhoi cyfle i bartneriaid, rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd ddylanwadu ar waith yr Awdurdod yn y dyfodol. Yn dilyn yr ymgynghori, byddai'r strategaeth yn cael ei dwyn yn ôl i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol i'w chymeradwyo.

Roedd yr Aelodau yn hoffi symlrwydd y strategaeth a'r graffeg oedd yn ategu'r strategaeth, a bod y crynodeb o'r ddeddfwriaeth a'r dogfennau polisi a nodwyd yn yr adroddiad wedi bod yn ddefnyddiol iddynt. Fodd bynnag, gofynnwyd i'r Awdurdod, wrth gynnal yr ymgynghoriad, fod yn glir yn yr hyn y disgwylid i bobl a sefydliadau roi sylwadau arno, er mwyn sicrhau bod yr ymgysylltu yn drylwyr. Atebodd y Prif Weithredwr mai hyn oedd y cam cyntaf yn y broses, ac nad oedd yn rhagweld mai hwn fyddai'r unig gyfle i wneud sylwadau ar y ddogfen. Wrth i'r strategaeth ddatblygu, byddai mwy o fanylion yn cael eu darparu. Fodd bynnag, byddai ymgynghori ar y strategaeth lefel uchel ar y pwynt hwn hefyd yn offeryn cyfathrebu.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r fersiwn drafft o'r Strategaeth Lefel Uchel ar gyfer ymgynghori.

[*Cyflwynodd y Cynghorydd M Evans ei ymddiheuriad a gadawodd y cyfarfod yr adeg hon.]*

**9. Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Atgoffwyd yr Aelodau bod angen i'r Awdurdod lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a gofynnwyd am eu sylwadau ar y datganiad drafft 2020/21. Dywedodd y Rheolwr Cyllid bod Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol a nodwyd yn Adran 5 o'r ddogfen wedi'i hargraffu mewn coch gan fod hyn heb eto ei gyflwyno i'r Awdurdod yn y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol.

Gan ddiolch i'r swyddog am y gwaith enfawr oedd wedi'i wneud ar y datganiad, gwnaeth yr Aelodau nifer o sylwadau manwl yn y cyfarfod a rhoi gwybod y byddai pwyntiau eraill yn cael eu hanfon drwy'r e-bost. Cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid y byddai'r newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud ac y byddai'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ddiweddarach yn y flwyddyn yr un pryd â'r cyfrifon blynyddol.

**NODWYD.**

*[Cyflwynodd y Cynghorydd S Yelland ei ymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod adeg ystyried yr adroddiad canlynol.]*

**10. Cynllun Datblygu Lleol 2: Ymgynghori ar y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)**

Atgoffodd Pennaeth Cyfarwyddyd y Parc yr Aelodau bod yr Awdurdod wedi cytuno i gyhoeddi dogfennau'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sy'n ymwneud â Datblygu Carafanau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau, Safonau Parcio, Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a Thai Fforddiadwy, Ynni Adnewyddadwy, Dylunio a Datblygu Cynaliadwy, Archaeoleg a Bioamrywiaeth yn ei gyfarfod fis Medi 2020 , a bod y ddwy ddogfen olaf yn ddogfennau canllaw ar y cyd â Chyngor Sir Penfro (CSP) ac yn ymdrin â Sir Benfro gyfan. Cafwyd ar ddeall y byddai CSP yn ystyried yr adroddiad ar yr ymgynghori ar y dogfennau Canllawiau hyn yn ei gyfarfod Cabinet ar 17 Mai, ac os byddai unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud, y byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno gerbron cyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

Aeth y Pennaeth rhagddi i ddweud bod ymgynghori â'r choedd wedi'i gynnal rhwng Hydref 2020 a Chwefror 2021 a bod yr adroddiad yn crynhoi'r canlyniadau ac yn nodi'r newidiadau a argymhellwyd i'r CCA oedd ynghlwm wrth yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau. Gofynnwyd i'r Aelodau felly ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd a mabwysiadu'r CCA newydd a ddiweddarwyd. Er mwyn lleihau nifer y tudalennau a atgynhyrchwyd, eglurodd y Pennaeth Cyfarwyddyd y Parc mai dim ond y tudalennau hynny lle'r oedd newidiadau arnynt oedd wedi'u cynnwys. Yn anffodus roedd un newid wedi'i hepgor mewn perthynas â sylwadau 79, ond roedd hyn wedi'i ddisgrifio yn Atodiad A i'r adroddiad.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog a'i thîm am yr ymatebion cynhwysfawr i bob un o'r sylwadau ac am y gwaith enfawr a wnaed i gynhyrchu'r adroddiad. Cafwyd trafodaeth wedyn ar faterion sy'n peri pryder megis ail gartrefi a'r ddarpariaeth meysydd gwersylla a charafanau, a dywedodd y swyddogion eu bod yn parhau i ymgysylltu â'r sefydliadau partner, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, mewn perthynas â'r materion hyn. Gofynnodd un Aelod am gynnwys gwybodaeth ychwanegol ynghylch ardaloedd sy'n sensitif o ran yr iaith Gymraeg (Ymateb Swyddogion i Sylwadau 4) gael ei chynnwys; hefyd mewn perthynas â dehongli canllawiau cenedlaethol mewn cyd-destun lleol (Ymateb Swyddogion i Sylwadau 14) a gwella mynediad i gerddwyr fel rhan o'r Canllawiau Lleoli, Lliniaru a Gwella Cyffredinol a ddarperir yn y CCA ar Garafanau, Gwersylla a Bythynnod Gwyliau. Cytunodd y swyddog i edrych ar eiriad y materion hyn i weld a ellid gwella'r geiriad.

**PENDERFYNWYD**:

a) Cytuno ar ymatebion y Swyddogion i'r ymatebion ymgynghori a dderbyniwyd a nodir yn Atodiad A ac Atodiad B.

b) Mabwysiadu’r Canllawiau Cynllunio Atodol ar:
   (i) Datblygu Carafanau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau
   (ii) Safonau Parcio
   (iii) Cynllun Bro – Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a Thai Fforddiadwy
   (iv) Ynni Adnewyddadwy
   (v) Dylunio a Datblygu Cynaliadwy
   (vi) Archaeoleg (ar y cyd â Chyngor Sir Penfro)
   (vii) Bioamrywiaeth (ar y cyd â Chyngor Sir Penfro)

   yn amodol ar y golygu a gynigiwyd yn Atodiad A ac C o’r adroddiad ac y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod.

c) Rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth Cyfarwyddyd y Parc wneud mân olygiadau pellach, i gynnwys cymryd i ystyriaeth sylwadau Cyngor Sir Penfro ar y ddwy ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Cyd (h.y. y dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fioamrywiaeth ac ar Archaeoleg). Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig gan Gyngor Sir Penfro o natur sylweddol yn cael eu hadrodd yn ôl i’r Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w hystyried ymhellach.

**11. Diwygiadau Arfaethedig i Reolau Sefydlog 5.1 a 5.4: Penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd**

Atgoffwyd yr Aelodau bod Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 (“y Rheoliadau”) oherwydd y pandemig COVID-19 y llynedd, oedd yn rhoi’r fframwaith i awdurdodau lleol alw cyfarfodydd rhithiol yr Awdurdod a'i Bwyllgorau drwy ddefnyddio meddalwedd fideo a/neu gynadledda ffôn.

O ganlyniad, cafodd Rheol Sefydlog 5 yr Awdurdod sy’n ymwneud â phenodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a'i Bwyllgorau ei diwygio dros-dro i amlygu’r ffaith na fyddai'n bosibl cynnal pleidlais gudd ar gyfer y cyfryw benodiadau.

Ers hynny, roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi dod i rym oedd, ymhlith pethau eraill, yn ymestyn gofynion y Rheoliadau, a bellach yn caniatáu cynnal cyfarfodydd lle gallai rhai, neu'r cyfan, o'r cyfranogwyr fod mewn gwahanol leoedd ar yr un amser, cyn belled â bod pawb - ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol o leiaf - sy'n cymryd rhan yn gallu cael eu clywed, ond nid o reidrwydd yn cael eu gweld gan bawb dan sylw.

Wrth symud ymlaen felly, roedd angen diwygio Rheol Sefydlog 5 i alluogi cynnal y broses o benodi Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion, waeth ble bynnag oedd yr Aelodau pan oeddent yn mynychu’r cyfryw gyfarfodydd, ac roedd yr adroddiad yn nodi'r diwygiadau arfaethedig.

Yn y cyfarfod dywedodd y Rheolwr Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro yr hoffai wneud dau newid ychwanegol i baragraff (ii) o Reol Sefydlog 5.4 (d) i gael gwared ar y geiriau “drwy fynediad o bell” ac “ychwanegol”.

Roedd un Aelod, er ei fod yn deall yr angen i ddiwygio Rheolau Sefydlog, yn anhapus na fyddai, o bosibl, o dan y darpariaethau hyn, i'r bleidlais fod yn gyfrinachol, a gofynnodd, wrth i'r systemau digidol ddatblygu, am roi ystyriaeth bellach i raglenni sy’n caniatáu pleidleisio dienw. Cytunodd y swyddog y byddai'r mater yn cael ei adolygu pe bai'r fformat o gynnal cyfarfodydd yn newid yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** bod Rheolau Sefydlog 5.1 a 5.4 mewn perthynas â'r drefn o ethol Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion i’r Awdurdod Parc Cenedlaethol a'i Bwyllgorau yn cael eu diwygio fel a ganlyn:

<u>Rheol Sefydlog 5.1</u>

(d) Er mwyn darparu ar gyfer presenoldeb o bell mewn cyfarfodydd yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, cynhelir pleidlais gudd fel a ganlyn:

(i) Gwahoddir Aelodau i bleidleisio dros un ymgeisydd yn unig. Bydd gan ymgeiswyr hawl i bleidleisio drostynt eu hunain.

(ii) Bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio am gyfnod o amser i ganiatáu pob Aelod sy'n mynychu’r cyfarfod i e-bostio, ffonio neu anfon neges destun at y Rheolwr Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Democrataidd, neu swyddog arall a enwir, yn ei gyfeiriad e-bost yn yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a/neu ei rif ffôn. Pe bai Aelod/ Aelodau yn mynychu'r cyfarfod yn swyddfeydd yr Awdurdod, a bod y swyddog hefyd yn bresennol, rhoddir y dewis iddynt bleidleisio drwy bapur pleidleisio.

(iii) Bydd y swyddog yn cyfrif y pleidleisiau a dderbyniwyd ac yn dilyn y weithdrefn bleidleisio arferol, h.y. gwaredu’r ymgeisydd sydd â'r nifer lleiaf o bleidleisiau a pharhau - os oes angen – i gyfrif y pleidleisiau dilynol a gynhelir o dan y weithdrefn a nodir yn (ii) uchod hyd nes bod un o'r ymgeiswyr wedi derbyn mwyafrif absoliwt o'r pleidleisiau a fwriwyd.

<u>Rheol Sefydlog 5.4</u>

Penodir Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Pwyllgor yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor hwnnw yn dilyn Cyfarfod Blynyddol yr Awdurdod. Y broses o enwebu i swydd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Pwyllgor fydd:

(a) Dylid cyflwyno enwebiadau yn ysgrifenedig i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd neu ei dîm erbyn 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod y Pwyllgor.

(b) Os na dderbynnir enwebiadau cyn y dyddiad cau o 10 diwrnod gwaith, gwahoddir enwebiadau ar ddiwrnod y cyfarfod.

(c) Os yw pob un o'r Aelodau yn bresennol yn yr un ystafell ar y diwrnod, cynhelir yr etholiadau yn yr un modd ag y cyfeirir atynt yn Rheol Sefydlog 5.1 (c) uchod.

(d) Os yw rhai neu bob un o'r Aelodau yn mynychu'r cyfarfod o bell, cynhelir yr etholiadau yn yr un modd ag y cyfeirir atynt yn Rheol Sefydlog 5.1 (d) uchod.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn (cyn belled ag y cynhwysir y newidiadau sy'n dilyn) yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2021:

O ran Cofnod 10 ynglŷn â'r Cynllun Datblygu Lleol 2 - Canllawiau Cynllunio Atodol, gofynnodd un Aelod am i'r ffaith gael ei nodi ei bod hi wedi cymeradwyo adroddiad Dr Simon Brooks yng Nghymru, oedd wedi'i ddosbarthu i'r Aelodau, ac wedi gofyn am i weithdy ar y pwnc hwnnw gael ei drefnu yn y dyfodol.